# Canllawiau Gwneud Cais ar gyfer Ymgeiswyr TAR

(Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg)

TAR Y Brifysgol Agored yng Nghymru

2025 / 2026



The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# CYFLWYNIAD

Mae'r nodiadau canllawiau hyn wedi cael eu creu fel adnodd ychwanegol, i'ch helpu wrth wneud cais i astudio cymhwyster TAR yn y Brifysgol Agored.

Byddant yn darparu arweiniad hawdd i'w ddilyn i chi, er mwyn gwneud y broses mor ddidrafferth â phosibl i chi, felly byddem yn eich annog i ddarllen y nodiadau hyn cyn cyflwyno eich cais.

# CYN GWNEUD CAIS

## CAM 1

Y cam cyntaf yw penderfynu pa lwybr TAR rydych eisiau gwneud cais amdano, a gwneud yn siŵr eich bod yn diwallu'r gofynion mynediad ar gyfer y llwybr hwnnw. Rydym yn cynnig dau lwybr, naill ai Cynradd neu Uwchradd. Ac mae gennym wahanol lwybrau ar gael i chi ddewis ohonynt (yn ddibynnol ar gymhwysedd).

Mae'r **Llwybr Rhan Amser** yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd i'r athrawon dan hyfforddiant gael profiad o ymarfer dysgu rhan amser mewn ysgol ochr yn ochr ag ymrwymiadau bywyd eraill. Efallai bydd y cwrs TAR hwn a hunanariennir yn apelio at y rhai sydd am barhau i weithio'n rhan amser neu sydd â chyfrifoldebau gofal plant, er enghraifft. Ar draws y ddwy flynedd, bydd yn rhaid i'r myfyrwyr gwblhau 120 diwrnod o leoliadau ysgol mewn o leiaf dwy ysgol, a ni fydd yn trefnu hyn.

Mae'r **Llwybr Cyflogedig** wedi'i greu ar gyfer y rhai sydd eisoes yn gweithio mewn ysgol brif ffrwd sydd wedi cytuno i'w cefnogi am gyfnod y cwrs TAR. Ar y llwybr hwn byddwch yn gweithio'n llawn amser mewn ysgol fel athro heb gymhwyso am ddwy flynedd, gan gwblhau eich astudiaethau academaidd ar yr un pryd. Byddwch hefyd yn cael cyflog gan eich ysgol wedi'i osod ar isafswm o bwynt 1 ar y raddfa gyflog i athrawon heb gymhwyso.

Os nad ydych yn gweithio mewn ysgol ar hyn o bryd ond yn awyddus i ddilyn y llwybr a ardystiwyd, yna gallech ystyried ein llwybr Uwchradd heb ei ardystio. Dyma ble y byddwn yn ceisio paru ymgeiswyr uwchradd llwyddiannus â phartner ysgol addas, i'w hardystio. Er y gwnaed pob ymdrech, nid yw hyn bob amser yn bosibl, ac ni allwn fod yn sicr y bydd ymgeiswyr llwyddiannus heb eu hardystio yn cael eu paru ag ysgol. Ar yr achlysuron hyn, efallai y bydd ymgeiswyr yn cael cynnig lle ar y llwybr rhan amser yn lle hynny (yn ddibynnol ar argaeledd).

Mae ein llwybr Cynradd cyflogedig yn gyfyngedig i'r rhai sydd eisoes yn gweithio mewn ysgol brif ffrwd, ac nid ydym yn cynnig cwrs TAR heb ei ardystio ar gyfer y cyfnod hwn.

## <u>Cam 2:</u>

Ar ôl i chi ddewis eich llwybr, bydd angen i chi ystyried beth a pha grŵp oedran yr hoffech eu haddysgu. Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig y cyfnodau oedran neu'r pynciau canlynol:

> Llwybr Cyflogedig – Cynradd, Uwchradd: Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg, Saesneg a Drama, Saesneg ac Astudio'r Cyfryngau, Dylunio a Thechnoleg, Cyfrifiadureg/TGCh Uwchradd, Ieithoedd Modern Tramor.

Llwybr Rhan Amser – Cynradd, Uwchradd: Mathemateg, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg, Saesneg a Drama, Saesneg ac Astudio'r Cyfryngau, Dylunio a Thechnoleg, Cyfrifiadureg/TGCh Uwchradd, Ieithoedd Modern Tramor.

**Cam 3:**

Mae'n amser bellach i chi wirio a ydych yn diwallu'r gofynion mynediad ar gyfer eich cwrs TAR dewisol, neu a fydd angen i chi ennill ychydig o gymwysterau ychwanegol ymlaen llaw. Mae angen i ymgeiswyr ddiwallu'r gofynion mynediad naill ai ar adeg gwneud y cais, neu erbyn yr haf cyn i'r cwrs TAR ddechrau.

<table>
<tr><th>Cymwysterau</th><th>Gofynion mynediad ar gyfer Cynradd</th><th>Gofynion mynediad ar gyfer Uwchradd</th></tr>
<tr><td>Gradd</td><td>Gradd anrhydedd lawn yn y DU mewn unrhyw bwnc (o leiaf 2:2 ar gyfer y llwybr Rhan Amser)</td><td>Gradd anrhydedd lawn yn y DU sydd 50% o leiaf yn berthnasol i'ch pwnc TAR dewisol</td></tr>
<tr><td>TGAU Saesneg</td><td>Gradd C o leiaf</td><td>Gradd C o leiaf</td></tr>
<tr><td>TGAU Mathemateg</td><td>Gradd C o leiaf</td><td>Gradd C o leiaf</td></tr>
<tr><td>TGAU Gwyddoniaeth</td><td>Gradd C o leiaf</td><td>[nid oes angen]</td></tr>
<tr><td colspan="3">Rhaid i bob ymgeisydd gael yr hawl i weithio ac i aros yn y DU am gyfnod y rhaglen ac efallai y bydd gofyn am gael prawf o hyn. Noder na allwn helpu ymgeiswyr rhyngwladol â nawdd fisa.</td></tr>
</table>

Os ydych yn cwblhau blwyddyn olaf eich gradd, neu os nad ydych yn diwallu'r gofynion mynediad TGAU ar hyn y bryd, gallwn dderbyn eich cais tra byddwch yn gweithio tuag at y cymwysterau hyn, ar yr amod eich bod yn eu cwblhau cyn dechrau eich cwrs TAR. Ond mae'n hanfodol bod pob ymgeisydd yn diwallu'r gofynion mynediad CYN dechrau ar y rhaglen neu byddech fel arall yn cael eich tynnu oddi ar y rhaglen.

## Cymwysterau Eraill

Efallai y byddwn yn gallu derbyn cymwysterau amgen i'r rhai sydd wedi'u rhestru yn y gofynion mynediad, os cânt eu hystyried yn rhai cyfatebol.

> Cymwysterau'r DU – Gallwn dderbyn amrywiaeth o gymwysterau achrededig Safon Uwch, TGAU Rhyngwladol, BTEC a rhai eraill yn lle TGAU arferol. Os ydych yn meddu ar gymwysterau o'r fath, nodwch hyn yn eich cais.
>
> Cymwysterau Tramor – Os ydych wedi ennill cymwysterau y tu allan i'r DU, bydd angen i ni wneud yn siwr eu bod yn cyfateb i ofynion mynediad cymwysterau'r DU. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn gofyn i chi ennill tystysgrif ENIC, gan sicrhau bod eich cymwysterau tramor wedi cael eu gwirio yn erbyn fframwaith TGAU y DU. Gellir archebu'r rhain yn enic.org.uk.

## Os nad ydych yn meddu ar y TGAU hyn (neu gyfatebol) ar hyn o bryd

Ni allwn dderbyn unrhyw brofion cyfatebol na chymwysterau Sgiliau Hanfodol. Os nad ydych yn diwallu'r gofynion mynediad ar hyn o bryd, efallai y gallwch ailsefyll TGAU yn eich coleg lleol neu drwy ddefnyddio darparwr ar-lein, gan sicrhau bod eich cymhwyster wedi'i achredu.

Os byddwch wedi dod o hyd i gwrs achrededig gwahanol ond nad ydych yn siŵr a allwn ei dderbyn, mae croeso i chi anfon y manylion atom a gallwn gadarnhau p'un a allwn ei dderbyn ai peidio.

## YN YSTOD Y BROSES O LENWI'R FFURFLEN CAIS

Ar ôl i chi wneud yn siwr y gallwch ddiwallu'r gofynion mynediad, bydd yn amser i chi wneud cais am eich cymhwyster TAR. Caiff ein rhaglenni TAR eu cynnal yn unol â'r flwyddyn academaidd a dim ond unwaith y flwyddyn, gan ddechrau ym mis Medi, y gallwn dderbyn mynediad.

**Noder nad yw'r ffurflen gais yn cael ei harbed yn awtomatig rhwng adrannau. Er mwyn rhoi ymatebion hirach, fel eich datganiadau ategol, rydym yn argymell eich bod yn ysgrifennu'r rhain ar wahân a chopïo a gludo eich ymateb ar y ffurflen hon.**

### CAM 1

**Dewis Iaith** - Os byddwch yn dewis cwblhau unrhyw elfen o'r cwrs TAR yn Gymraeg, gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau'r ffurflen Gymraeg.

**Lleoliad** - Dim ond mewn ysgolion yng Nghymru y mae ein TAR ar gael ac mae'n rhaid i fyfyrwyr rhan amser fyw yng Nghymru yn llawn amser. Gallwn dderbyn ceisiadau am y TAR Cyflogedig gan y rhai sy'n byw yn Lloegr, ar y sail eu bod yn cytuno i deithio i'w hysgol gyflogi yng Nghymru.

**Manylion Personol** – Cofiwch wneud yn siwr bod y manylion hyn i gyd yn gywir.

**Preswyliaeth** – Os nad oes gennych basbort Prydeinig yna efallai y gofynnir i chi ddarparu tystiolaeth o'ch hawl i aros yn y DU.

**Cais Rhaglen** – Yn yr adran hon bydd angen i chi ddewis pa gwrs TAR y byddwch yn gwneud cais amdano. Cofiwch ein bod ond yn gallu derbyn ceisiadau ar gyfer cwrs TAR Cyflogedig Cynradd gan y rhai sydd eisoes yn gweithio mewn ysgol sydd wedi cytuno i'w hardystio. Os ydych yn gweithio mewn ysgol ar hyn o bryd, cofiwch gynnwys y manylion cyswllt perthnasol ar gyfer eich cyflogwr.

**Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** – Gallwch nodi ar eich cais a oes gennych wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Eich Cymwysterau** – Cwblhewch yr adran hon drwy nodi graddau'r cymwysterau sydd gennych ar hyn o bryd. Noder bod y tabl TGAU ond ar gyfer cymwysterau TGAU yn unig, ac nid rhai cyfatebol. Os oes gennych gymwysterau amgen y credwch y cânt eu hystyried yn rhai cyfatebol, defnyddiwch y blwch a ddarparwyd.

Os ydych wedi cwblhau unrhyw gymwysterau dramor, cofiwch restru'r rhain mor fanwl â phosibl yn yr adran berthnasol.

Os nad ydych wedi graddio eto, cofiwch gyflwyno eich gradd ddisgwyliedig.

**Datganiad Ategol** – Rydym am weld eich brwdfrydedd dros addysgu a'ch dealltwriaeth o'r rheswm pam mai addysgu yw'r yrfa i chi. Dylai eich datganiad fod yn wreiddiol ac yn onest. Wrth gwblhau'r adran hon, rydym yn argymell eich bod yn ysgrifennu hyn ar wahân ac yna yn copïo a gludo eich ymateb i mewn i'r ffurflen er mwyn osgoi colli eich atebion.

**Cymhwysedd Iaith** – Yn yr adran hon gallwch roi gwybod i ni am eich cymhwysedd ynghylch y Gymraeg. Cofiwch hefyd roi gwybod i ni os mai Saesneg (neu Gymraeg) yw eich iaith gyntaf, neu a ydych wedi ei dysgu fel ail iaith, a chofiwch gynnwys sgorau IELTS os byddwch wedi sefyll yr arholiad hwn.

**Cydraddoldeb ac Adrodd ar Ddata –** Cwblhewch yr adran hon fel y byddech yn disgrifio eich hun, ac os nad ydych yn dymuno ateb unrhyw gwestiwn gallwch ddewis yr opsiwn hwn.

**Datganiad** – Yn yr adran derfynol hon, darllenwch drwy'r cwestiynau'n ofalus a chadarnhau eich bod wedi darllen a deall y datganiadau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r rhain, cofiwch gysylltu â ni.

## AR ÔL CYFLWYNO'R CAIS

Wedi i chi gyflwyno eich cais, bydd angen i chi e-bostio copïau o'ch dogfennaeth ategol atom yn TAR-Cymru@open.ac.uk, lle bydd aelod o'r tîm yn eu hadolygu ochr yn ochr â'ch cais. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

| Dogfennaeth | Dogfennau gofynnol ar gyfer ymgeiswyr Cynradd | Dogfennau gofynnol ar gyfer ymgeiswyr Uwchradd |
|---|---|---|
| **Gradd** | Tystysgrif Gradd | Tystysgrif gradd a thrawsgrifiadau o Fodiwlau Prifysgol |
| **Tystysgrifau Safon Uwch** | [nid oes angen] | Oes |
| **TGAU Saesneg** | Oes | Oes |

| | | |
|---|---|---|
| **TGAU Mathemateg** | Oes | Oes |
| **TGAU**<br><br>**Gwyddoniaeth** | Oes | [nid oes angen] |
| **Llun Adnabod** | Oes | Oes |
| **Tystiolaeth o Newid Enw** | Os yw'n gymwys | Os yw'n gymwys |
| **Tystysgrif Geni** | Oes | Oes |
| Gofynnir i ymgeiswyr sydd heb basbort y DU dangos eu hawl i weithio ac i aros yn y DU, a dylent ddarparu hyn ynghŷd â dogfennaeth ategol. | | |

**<u>Os nad oes gennych y dogfennau hyn ar hyn o bryd</u>**

Os ydych yn y broses o ailsefyll neu gwblhau eich cymwysterau, gallwn aros am y tystysgrifau hyn gan ein bod yn deall na allwch gael gafael arnynt eto. Fodd bynnag, os byddwch yn llwyddiannus gyda'ch cais, bydd angen cadarnhad ffurfiol arnom sy'n dangos eich bod wedi diwallu'r holl ofynion mynediad. Mae'n rhaid i ni dderbyn y rhain erbyn yr haf yn unol â'n terfynau amser cofrestru.

Os ydych wedi cwblhau pob un o'ch cymwysterau ond ddim bellach yn gallu cael gafael ar eich tystysgrifau, gallwch archebu rhai newydd ar wefan y bwrdd arholi. Ar ben hynny, gallwn dderbyn Llythyr Cadarnhau Electronig, a all hefyd gael ei archebu ar wefan y bwrdd arholi (megis CBAC, Edexcel ac ati). Os nad ydych chi'n siŵr pa fwrdd y gwnaethoch sefyll eich arholiadau ag ef, byddem yn argymell eich bod yn cysylltu â'ch ysgol uwchradd, gan y dylent gael y

wybodaeth hon ar gofnod yn seiliedig ar y flwyddyn y gwnaethoch sefyll yr arholiadau.

Os nad yw hyn yn opsiwn, yna bydd angen i chi gysylltu â'r byrddau arholi yn unigol i ofyn am eich cofnodion. Efallai y byddwch yn gweld y canllaw hwn ar wefan Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol: Cael tystysgrif arholi newydd: Pwy i gysylltu â nhw - GOV.UK (www.gov.uk) Gall gymryd ychydig wythnosau i drefnu tystysgrif arholiad newydd, felly byddem yn eich cynghori i geisio cael gafael ar y rhain cyn gynted â phosibl os bydd angen. Noder na allwn dderbyn unrhyw ganlyniadau dros dro.

**Y GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD**

Os byddwch yn llwyddiannus gyda'ch cais, bydd rhaid i chi sicrhau bod gennych wiriad clir a dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn barod i ddechrau eich cymhwyster TAR.

Os oes gennych wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn barod, efallai y gallwn dderbyn hyn ar gyfer eich cymhwyster TAR yn seiliedig ar y canlynol:

a) ei fod wedi'i gofrestru â'r Gwasanaeth Diweddaru (rhaid bod hyn wedi cael ei danysgrifio gan yr unigolyn o fewn 30 diwrnod o gyhoeddi'r dystysgrif. Er mwyn gweld a oes gennych danysgrifiad/ei fod yn weithredol o hyd, mewngofnodwch i'ch Porth Gwasanaeth Diweddaru (crbonline.gov.uk)

b) ei fod wedi cael ei wirio'n benodol yn erbyn y Gweithlu Plant

c) ei fod yn wiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

**Os nad yw eich gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gofrestredig neu nad ydych yn meddu ar dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth ar hyn o bryd, yna byddwn yn gofyn i chi gwblhau gwiriad newydd ganddynt ar gyfer eich cymhwyster TAR, ac yna byddwn yn rhoi dolen i chi yn dilyn eich cynnig amodol.**

Rydym yn gobeithio i'r adnodd hwn fod yn ddefnyddiol, ond os bydd gennych ymholiadau pellach am sut i wneud cais ar gyfer y rhaglen, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy TAR-Cymru@open.ac.uk.